

OWAIN TRAIN MCGILVARY

I'm finally using my body for
what I feel like it's made to do

16.04.22 – 14.08.22

Count me in

Ronnie Angel Pope

Yn ei thraethawd ym 1993 'Against Ordinary Language: The Language of the Body', mae Kathy Acker yn mynd ati i ysgrifennu am gorffflunio.¹ Yn ystod y broses, mae'n dod ar draws problem. Yng nghyd-destun codi pwysau, ymddengys nad yw 'iaith gyffredin', fel y sonia Acker, yn ddigon da. Mae gweithrediad iaith yn cael ei gwestiynu wrth i'r gyfres arferol o ymadroddion ddechrau teimlo'n lletchwith, yn feichus, ac yn drwsgl. Mae 'iaith gyffredin' yn rhwystr. Felly, mae Acker yn dechrau ymchwilio i'r 'gwrthdaro rhwng corffflunio a iaith lafar'.²

Yr hyn mae'n ei ganfod yn lle 'iaith gyffredin' yw 'iaith y corff' – 'dull ar gyfer deall a rheoli'r corfforol sydd, yn yr achos hwn, yr un peth â'r hunan'.³ Mae'r iaith yma'n gynnil, yn cynnwys ailadrodd rhifiadol a setiau o enwau yn bennaf – 'un o'r gemau ieithyddol symlaf'.⁴ Mae'r cyfyngiadau y mae iaith y corff yn eu gosod ar ei hunan yn gweithio er mantais iddi. Eglurder ystyr sy'n bwysig yma. Mae crynoder yn fanteisiol.

Mae Elias Canetti yn ysgrifennu am y swyn sy'n gorwedd mewn 'lleihau popeth i'r math symlaf o ailadrodd'⁵, ac mae Acker yn dechrau ble mae Canetti'n gorffen, drwy gyfri repiau, setiau a sgwatiau. Ond a yw'n bosib mynd â'r rhesymeg crynhoi yma gam ymhellach? Meddwl y tu hwnt i unedau sain sy'n ffurfio iaith fel yr unig fectorau ar gyfer ystyr? Yn hytrach, a allen ni ystyried y gofod rhwng y geiriau – y bylchau

mewn iaith – fel y gofod lle mae'r gweithredu'n digwydd, wrth geisio creu ystyr? Gan barhau â'r trywydd ymholi yma, mae iaith y corff yn fwy na iaith geiriau yn unig erbyn hyn. Mae'n cael ei siapio'n bennaf gan y gofodau rhwng y geiriau.⁵

Gan godi'r bar oddi ar ei ffrâm orffwys, ac yna i lawr at waelod fy mrest, rwy'n cyfri '1'. Rwy'n gweld y bar, yn gwneud yn siŵr ei fod yn cyffwrdd â fy mrest yn y man cywir, gan ei roi yn ôl ar ei ffrâm. '2'. Rwy'n ailadrodd yr un symudiadau. '3'... Ar ôl ailadrodd ddeuddeg gwaith, rwy'n cyfri tri deg eiliad gan gynyddu fy mhwsau. '1'. Mae'r union broses yn dechrau unwaith eto, ond y tro yma rwy'n gorffen ar '10'.⁶

Byddai ergonomeg afreolus amser yn ddigon i wasgu'r pwysau o'r geiriau. Mae'n ymwneud â greddf yn gymaint â nanoeiliadau. Yr hyn sy'n cyfri yw'r cyfnod crog o dawelwch. Y saib rhwng pob cynnig, wrth i'r geg drefnu ei hunan ac i'r ysgyfaint chwyddo i wthio synau'r llafariaid allan, gan wyntyllu'r ffrwydrolion a'r ffrithiolion i ffurfio 'un' 'dau' a 'thri'. Dydy'r iaith ei hunan yn fawr ddim o gymharu â'i chyflymdra a'i dosbarthiad. Y seibiannau, y gwahanwyr teils mewn growt gwlyb. Mae rhythm a mesur yn fectorau ar gyfer ystyr. Fel curiad cerddeddiad cyfarwydd, neu ddawns y bobl sy'n byw ar y nenfwd.

¹ Kathy Acker, 'Against Ordinary Language: The Language of the Body' [1993], yn *Bodies of Work*, Llundain ac Efrog Newydd: Serpent's Tail, 1997, tt. 145-46.

² Acker, t.21.

³ Acker, t.25.

⁴ Acker, t.23.

⁵ Elias Canetti, *The Voices of Marrakesh*, Efrog Newydd: Gwasg Seabury, 1979, t.25.

⁶ Acker, t.25.

Yr hyn sy'n ymffurfio yn nhestun Acker yw system ddi-eiriau o gyfathrebu, sy'n benodol i fyd corfflunio. Gelwir y system yma'n 'ddaeryddiaeth dim iaith'. Ym mhroffion Inkblot Hermann Rorschach, mae cymesuredd yn digwydd wrth i chwistrellau o bigment ddiferu ar hyd y plyg canol, rhwng dalennau papur sy'n cyffwrdd o dan bwysau ochr dwrn [y rhan o'r llaw sy'n troi'n las gan feiro ysgrifenwyr llaw chwith]. Yn debyg i hynny, mae modd mapio'r 'ddaeryddiaeth dim iaith' yma i fyd reslo, fel pwnc ffilm Owain McGilvary, 'I'm finally using my body for what I feel like it's made to do'.⁸

Mae gwaith McGilvary yn plethu Acker i'w wead ei hunan. Mae troshaenau o destun o 'Against Ordinary Language: The Language of the Body' yn ffurfio ffordd o feddwl drwy themâu rhywedd, dosbarth a rhywioldeb. Mae'r testun yn bodoli fel haen werthfawr wedi'i gosod rhwng sleidiau o binc, fel pe bai'n rhan o balimpsest ffilmaidd. I'r gwrthwyneb, mae'r haenau o ideoleg a'r ddelwedd yn creu eglurder, yn hytrach nag afloywder. Mae testun Acker yn egluro naratif McGilvary, ac yn dod â themateg y ffilm i ffocws. Y testun yw'r edefyn cyffredin sy'n bwydo drwy estof ac anwe'r ffilm, a thrwy hynny fe sefydlir 'fi' casgliadol. Yn gyntaf, ar ran McGilvary, wrth i'r testun gael ei ailgynhyrchu yn ei lawysgrifen. Yn ail, ar ran aelodau'r grŵp reslo, wrth i'w naratif gael ei dorri gyda'r testun a'i blygu drwyddo. Ac yn drydydd, ar ran yr arsyllwr, sy'n eistedd mewn deialog ysbeidiol gyda'r testun a'i gyfarwyddiadau – "Dychmygwch eich bod chi mewn gwlad dramor."⁹

Mae ffilm McGilvary yn dechrau gyda'r weithred o gyfri. Gweithred sy'n cyd-fynd ag ystumiau llaw yma yn aml. Cyfri amser, nid gyda chnwl cloch, ond gyda'r bysedd – ffordd arall ddi-eiriau o gyfathrebu sy'n defnyddio'r corff. Rhywle ar y rhyngwyd, mae erthygl clickbait sy'n manylu'n union 'sut mae

dweud a yw rhywun o America neu Ewrop'. Yr arwydd llaw a roddir ar gyfer 'tri' yw'r ateb, mae'n debyg. Mae un ystum yn cynnwys y bys canol a'r mynegfys, gyda'r bys bawd yn ffurfio tic Nike. Mae'r llall yn gwahodd cyfranogiad y bys modrwy; y bys bach a'r bawd yn dod ynghyd i ffurfio anrhydedd y sgowntiaid. Cod tawel. 'Un' yw'r mwyaf cyffrous bob tro. Un bys unig yn pwyntio yw'r ystum pwysicaf. Gofynnwch i Syr Alan Sugar neu Jacques Dutronc. Mae'r pwynt yn cyfeirio at adar yn hedfan. Mae'n rhoi pwysau ar arweinydd yr wrthblaid. Pwynt bachgen ysgol fonedd, pwynt prifathro, pwynt gwleidydd. Defnyddiwch y bys â gofal; gall adrodd cyfrolau. Yng nghyd-destun reslo, mae'r un bys yn arwydd o un o ddau beth: 'rwy'ti mewn' neu 'rwy'ti allan'.

Mae cyfri ac ystumio yn ffurfiau penodol o wrthod 'iaith gyffredin' – yn boeth a miniog yn y gofod. Mae'r ffurf arall o gyfathrebu di-eiriau, sy'n ganolog i'r byd reslo, yn dod o ganlyniad i broses arafach, a gellir ei hadnabod orau fel meithrin persona. I reslwyr, mae persona yn rhagofyniad; mae persona yn FAWR. Yn amlhaenog ac ymhell o fod yn unigol, mae persona reslwr wedi'i ffurfio ar y groesffordd rhwng llên gwerin, enwau anwes, nodweddion personoliaeth, mythau trefol, diwylliannau ieuenctid, a ffasiwn. O'r tân daw'r sawdl neu'r wyneb. Yr enw ynghyd â'r wisg. Mae 'persona', rhywbeth a ddisgrifiwyd un tro gan Bergman fel 'buddugoliaeth dros dawelwch', yn dod yn fuddugoliaeth dros iaith hefyd.¹⁰

Mae'r syniad o domen gompost o brofiad sy'n creu persona yn amlwg yn narluniau inc McGilvary. Mae cyrff yn haenau ar gyrff eraill, coesau a breichiau, anifeiliaid, a rhosod yn dod ynghyd i greu tatŵ, i greu argraffnod. Mae cyfeireiriau'n cael eu trefnu a'u haildrefnu er mwyn creu hunan allanol, neu yn wir, mwy nag un hunan. Mae paradocs rhwng y cyrff datgymalog ac anffurfiedig sydd

⁷ Acker, t.21.

⁸ Owain Train McGilvary, I'm finally using my body for what I feel like it's made to do, 2022.

⁹ Acker, t.21.

¹⁰ Ingmar Bergman, Liv Ullman a Bibi Anderson, Persona [Stockholm, Sweden: Svensk Film industri, 1966].

wedi'u trefnu yng nghyfansoddiadau McGilvary a'r ymdeimlad o bersona cnawdog maen nhw'n ei gyflwyno. Ond eto, mae pob person a'n hylifol; yn mynd i mewn ac allan o afloywder, gan ddatgelu ei hunan fel safle o ryngchwarae parhaus.

Swyddogaeth orau rhannau cyfansawdd persona (boed yn arteffactau personol, cyfeiriadau diwylliannol, ymadroddion, gwallt, neu golur) yw bod modd eu haildrefnu'n barhaus i ffurfio sawl delwedd o'r hunan, yn hanesyddol ac yn bresennol. Mae'n fyd ôl-Instagram, ôl-Anna Delvey – yn Llai o Gwlt Personoliaeth a'i Ganlyniadau, ac yn Fwy o Gwlt Persona a'i Ailddilyniadaeth. Mae arwyr diweddar yn bodoli at ddiben chwarae gwisg ffansi. Teilwra'u trowsus, torchi llewys, a'u harsylwi yn amgueddfa'r V&A. Pinio rhywbeth yn ei le, priodoli ymadrodd, neu arlliw minlliw, ac maen nhw'n dod yn agosach i ni. Mae rhyngweithio'n meithrin agosatrwydd, ac mae agosatrwydd yn gwneud y byd yn lle gwell.

Mae'r prosesau yma o ailddychmygu ac ailwampio hefyd yn ganolog i berthynas McGilvary gyda thestun Acker, y mae'n ei ailbwrpasu, ei ailanimeiddio, a'i ailgynhyrchu, ddarn wrth ddarn, yn ei lawysgrifen ei hunan. Beth sy'n digwydd i ystyr y testun pan mae'n profi rhesymeg anffurfiad (fel ym mhaentiadau golygiadol Jenny Holzer) neu ailffurfiad (fel dull torri William Burroughs)? Beth sy'n digwydd pan fydd un gyfres o eiriau'n cael ei haildrefnu er mwyn gwneud synnwyr o rywbeth arall? At hynny, beth sy'n digwydd i'r 'fi'? Ble mae'r 'fi', yn hyn i gyd? Mae yna drywydd ymholi sy'n awgrymu bod yn rhaid i'r dull torri ymwneud â meithrin persona a ffurfio 'fi'. Pam arall fyddai Bowie'n ei wneud? Dyna'r peth blasus am ôl-foderniaeth, yw casgliad y 'fi' yma – y ffaith bod clytwaith a llên-ladrad yn

gynghreiriaid. Yn yr un ffordd ag y mae crynoder a chrebachrwydd yn gynghreiriaid i iaith y corff. Mae'r gwaith eisiau cael ei anffurfio, newid ei siâp, a chael ei dorri. Mae'n erfyn amdano, ac mae'r gwaith yn well drwy hynny.

Ond mwy am y 'fi' yna. Pan fyddwn ni'n siarad am Acker, pan fyddwn ni'n ei thorri i fyny, pa Acker ydyn ni'n siarad amdani? Pan fydd Olivia Laing yn ysgrifennu nofel arbrofol o safbwynt Kathy, [Crudo, 2018], mae Acker oes Trump a Twitter yn ymlacio wrth ymyl y pwll.¹¹ Pan fydd MacKenzie Wark yn ysgrifennu damcaniaeth isel, a Philosophy of Spiders [2021], mae Acker drawsryweddol yn dod i'r llun.¹² Nid swydd y cyfrwng na'r archifydd di-flewyn-ar-dafod yw dyfeisio hunan unigol a chanonaidd mwyach. Mae sawl Kathy mewn ymchwil a datblygiad parhaus, yn chwyrllïo drwy amser gofod. 'Fi, fi, fi, fi, fi, fi... Kathy Acker.' Mae gronynnau o sawl Kathy yn arnofio drwy'r aer fel gronynnau Mike Teavee Willy Wonka. Os chwiliwch chi amdano, rwy'n rhyw led amau y byddwch chi'n sylweddoli bod Kathy o'n cwmpas ni i gyd mewn gwirionedd.

Mae 'iaith fud' yn ymffurfio ym mylchau iaith, yn nhreigl amser, mewn ystumiau, ac ym mhob hunan allanol. Hynny yw, mae'n bodoli ar ymylon yr hyn y mae modd ei gynrychioli. Ac eto, mae iaith y corff yn uniongyrchol ac yn ddyfal. Gan gynnal deuoliaeth debyg, ysgrifenna Acker 'yn ôl yr ystrydeb, mae athletwyr yn dwp. Hynny yw: maen nhw'n anhuawdl', ac mae 'iaith lafar' y gampfa yn cadarnhau'r ystrydeb yma gan mai 'Yr unig ferfau yw gwneud neu methu.'¹³ Ond eto, os mai nod iaith yw cyfleu ystyr, does dim iaith fwy sicr na iaith y corff, gyda'i berfau diwastraff a chadarn. Mae berfau'n gwneud pethau'n solet. Heb ferfau, dim ond feibiau sydd. Mae feibiau'n symud yn gysglyd, heb uniongyrchedd

¹¹ Olivia Laing, Crudo (Llundain: Picador, 2018).

¹² Mackenzie Wark, Philosophy For Spiders: On The Low Theory Of Kathy Acker (Durham, NC: Gwasg Prifysgol Duke, 2021).

¹³ Acker, t.21.

a hollbresenoldeb. Mae syniad o'r fath yn dwyn i'r cof fideo feiral o 2017, lle mae un o gefnogwyr ifanc Clwb Pêl-droed Lerpwl yn troi at y camera yn ei jîns 501 a'i siaced pyffer i ddweud, yn soniarus: 'I don't do if, buts, and maybes... I do absolutes.'¹⁴

Mae iaith y gampfa (sef iaith y corff) yn bodoli 'dim ond ar ymylon cael ei cholli'. Yma, ar yr ymyl, y mae iaith yn ei man melys. Mae iaith ei hunan yn dechrau ymwrthod â chynrychiolaeth ieithyddol, gan ei bod mor annatod ynghlwm â chorfforoldeb, â gweithrediad. Dydy hi ddim yn bodoli fel geiriau bellach, wedi'i datgysylltu o'r corff. Hi yw'r corff. Mae'n gweithredu mewn amser go iawn. Yn ddeinamig ac yn frwd. Mae wedi dianc rhag y baich. Mae'n ymgorffori'r wefr benodol ac uniongyrchol o adael y tŷ â dwylo gwag, heb fag. Mae iaith y corff wedi gwaredu â'r rhagddodiaid a'r ôl-ddodiaid, er mwyn y wefr o fod â dwylo gwag – o deimlo'n bwrpasol ac yn rhydd. Gwisg unsill slic, yn symud fel cylllell drwy fenyn. Yn cael pwyntiau am amser, technegoldeb, a steil.

Mae **Ronnie Angel Pope** (g.1998) yn un o Awduron Newydd Frieze, ac mae'n astudio ar gyfer DPhil ym Mhrifysgol Rhydychen. Mae wedi cael Gwobr Michael O'Pray Art Monthly x FVU (2021) ac mae ei gwaith wedi'i gyhoeddi gan Yoko Ono, Man Repeller, The Quietus, y BBC, a Penguin Random House, ymhlith eraill. Hi yw awdur iPhone Notes (Caeredin: Gwasg If A Leaf Falls).

Cyfeirnodau

Bergman, Ingmar, Liv Ullman, a Bibi Anderson, *Persona* (Stockholm, Sweden: Svensk Film industri, 1966)

Kroker, Arthur, a Marilouise Kroker, *The Last Sex* (Basingstoke: Macmillan, 1993)

Laing, Olivia, *Crudo* (Llundain: Picador, 2018)

The Redmen TV, 'I Do Absolutes', 2017 <https://www.youtube.com/watch?v=2_05YHX4urE> [Cyrchwyd 3 Ebrill 2022]

Train McGilvary, Owain, *I'm finally using my body for what it's made to do*, 2022

Wark, Mackenzie, *Philosophy For Spiders: On The Low Theory Of Kathy Acker* (Durham, NC: Gwasg Prifysgol Duke, 2021)

¹⁴ The Redmen TV, 'I Do Absolutes', 2017 <https://www.youtube.com/watch?v=2_05YHX4urE>

¹⁵ Acker, t.21.